

Yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru 2010 - 2015



Cyfamodi at Genhadu

CYNNWYS

	Tudalen
Cenhadu ynteu Undod?	2
Dysgu o brofiad eraill	4
Rhannu llawnach	6
Bod yn wahanol gyda'n gilydd	8
Cenhadu a gwasanaethu mewn Partneriaethau Lleol	10
Trefn gyffredin ar gyfer y Cymun Bendigaid	12
Rhannu Arolygiaeth	14
Yr Eglwys yn Uno yng Nghymru	16
Beth nesaf?	18
Y tymor hir	19
Am y tro ...	20
Y seiliau Ysgrythurol ac egwyddorion diwinyddol	22
Rhagor o wybodaeth	24
Cwestiynau	26

cyhoeddwyd gan Cytûn ar ran
Yr Eglwys Cyfamodol yng Nghymru
58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3UR

<http://www.cytun.org.uk/eglwysicyfamodol.html>

Ionawr 2012

Cyfieithiad gan Gwasanaethau Iaith Geirda
Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan Ritchie Craven, Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru

2012 – 2015 Cyfamodi at Genhadu

Yn ein Cyfamod* ym 1975 dywedwyd:

*‘Ni wyddom eto pa ffurf a gymer undeb.
Down at ein tasg yn agored i’r Ysbryd’.*

Heddiw, rydym ninnau, arweinwyr yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru, yn gwahodd aelodau ein heglwysi, yn fugeiliaid a phobl, i baratoi mewn ysbryd gweddigar ac ymholgar ar gyfer y Cydgynulliad a gynhelir yn Aberystwyth fis Hydref 2012, pryd y cyflwynir adroddiadau paneli’r Comisiwn at hyrwyddo amcanion y Cyfamod, y cyfeirir atynt yn y llyfryn hwn.

Y Parchedigaif Ddr Barry Morgan, Archesgob Cymru

Y Parchedig Bryn Williams, Ysgrifennydd Cyffredinol, Eglwys Bresbyteraidd Cymru

*Y Parchedig Patrick Slattery, Cadeirydd Synod Cymru,
yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru*

Y Parchedig Peter Noble, Llywydd, Synod Cymru, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig

*Y Parchedig Ddr Marc Dummer, Cadeirydd, yr Eglwysi Bedyddiedig Cyfamodol
o fewn Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr*

1964

Galwodd Cynhadledd Nottingham ar eglwysi i 'gyfamodi â'i gilydd'.

1968

Cyhoeddi 'Cyfamodi yng Nghymru'.

1975

Pregethodd yr Archesgob Gwilym Owen Williams adeg sefydlu'r Cyfamod yn Seilo, Aberystwyth.

Cenhadu ynteu Undod?

Mewn sefyllfa ôl-enwadol, pa un sy'n dod gyntaf?

Heddiw mae arbenigwyr mewn cenhadu'n ein hannog i roi'r flaenoriaeth i genhadu fel rhagflaenydd undod. Mae angen pwysleisio'r ddau.

Lluniwyd y llyfryn bach hwn i ddangos lle rydym wedi'i gyrraedd a lle rydym am fynd nesaf, gan ein hatgoffa hefyd o'n taith hyd yma – a pham rydym ar y daith o gwbl.

Nid yw'r Eglwysi Cyfamodol yn glwb preifat! Eisoës ceir sawl enghraifft lle mae'r Eglwysi Cyfamodol, gyda'i gilydd neu ar wahân, yn cydweithio'n lleol mewn caplaniaethau neu fentrau ar y cyd megis *Gweini (Llais y Sector Gwirfoddol Cristnogol yng Nghymru)* ag eglwysi eraill neu grwpiau o eglwysi.

Wrth i rannu o'r fath barhau (gyda chymorth Cytûn) gall arwain at gydweithredu ehangach fyth a gwireddu fwyfwy amcan gwreiddiol y Cyfamod.



**Bu tro ar fyd
rhwng 1975 a
heddiw ac mae'r
eglwysi wedi
newid wrth
ymateb i'r
newidiadau
o'u cwmpas.**

Dysgu o brofiad eraill

Ym 1972 methodd cynlluniau ar gyfer uno Eglwys Loegr a'r Eglwys Fethodistaidd am yr eildro.

Ym 1982 methu hefyd fu hanes y cynlluniau ar gyfer sefydlu Cyfamod yn Lloegr rhwng yr Anglicaniaid, Disgyblion Crist, yr Eglwys Fethodistaidd, y Morafiaid a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

Ym 1995 cyhoeddwyd cylchlythyr y Pab John Paul II *Ut unum sint* ynghylch yr ymrwymiad i uno.

Ni chafwyd cefnogaeth ddigonol pan geisiwyd atgyfodi yn y flwyddyn 2000 gynllun blaenorol i uno pedwar o draddodiadau'r eglwysi rhyddion yng Nghymru (sef y traddodiadau Presbyteraidd, Methodistaidd, Bedyddiedig a Diwygiedig) ac nid aeth y cynnig ymhellach.

Yn 2001 llofnodwyd *Charta Oecumenica* yn Strasbwrg i sefydlu canllawiau ar gyfer y cydweithredu cynyddol ymhlith yr Eglwysi yn Ewrop o'r traddodiadau Protestannaidd, Uniongred a Chatholig Rhufeinig.

Yn 2002, llofnodwyd Cyfamod rhwng Eglwys Loegr ac Eglwys Fethodistaidd Prydain Fawr. Gyda'r Eglwys Fethodistaidd bellach yn bartner yn y ddau Gyfamod gwelwyd yn barod bod datblygiadau o fewn un ohonynt yn gallu bod o fudd i'r ddau.

Cyfamodi, felly, yw'r elfen sydd wedi llwyddo ym maes y berthynas rhwng eglwysi yng Nghymru. Er i'r Cyfamod hefyd brofi siomedigaethau ar y ffordd, erys yn arwydd o obaith am gydweithio agosach wrth weinidogaethu a chenhadu yn ein gwlad heddiw.

'ar iddynt oll fod yn un, ie, fel yr wyt ti, O Dad, ynof fi a minnau ynot ti, iddynt hwy hefyd fod ynom ni, er mwyn i'r byd gredu mai tydi a'm hanfonodd i.'

Ioan 17. 21



2004 Datganiad Trefeca

*Roedd y
Datganiad yn
ail-gadarnhau
ymrwymiad y
pum eglwys tuag
at nod undod
gweladwy'r
Eglwys mewn
modd a fyddai'n
unol ag ewyllys
Crist.*

Rhannu llawnach

Mae'r pum traddodiad eglwysig cyfamodol, sy'n bartneriaid o fewn teulu Cytûn, eisoes wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- rhannu yn llawnach yng ngweinidogaethau ei gilydd, gan wneud y defnydd gorau posibl o ddarpariaethau pob eglwys;
- ymgymryd â gwaith newydd gyda'i gilydd bob tro, ac eithrio lle bo raid iddynt ar dir cydwybod wneud hynny ar wahân;
- cydgrynhoi adnoddau er mwyn tystiolaethu yn unedig i Gymru;
- gwranddo ar yr hyn y mae'r genedl yn ei ddweud wrth yr Eglwys.

*'Y Saint, ein hynafiaid ni,
a adeiladodd Gymru ar sail
y Crud, y Groes a'r Bedd Gwag.'*



Pum egwyddor Cyfamodi

Bod yn wahanol gyda'n gilydd

'Ffurf ar undod gweladwy yw Cyfamodi sy'n ceisio ymateb i'r amrywiaeth o draddodiadau gwahanol o fewn yr undod a rydd Crist i'r eglwys ac y mae'n ei ewyllysio ar ei chyfer.

'Fel mynegiant wedi'i addasu o undod organig, geilw ar yr eglwysi i uno yn "y pethau cysegredig" (*communio in sacris*):

- ffydd
- bedydd
- yr ewcharist
- y weinidogaeth
- cenhadu

heb undod cyfundrefnol.'

Cyngor Eglwysi'r Byd
Dictionary of the Ecumenical Movement

Mae dau argraffiad y Dictionary of the Ecumenical Movement (1991 a 2002) yn neilltuo pum modfedd golofn a hanner i'r Cyfamod Cymreig. Hyd heddiw, bydd cynrychiolwyr eraill mewn cyfarfodydd eciwmenaidd rhyngwladol yn holi'r cynrychiolwyr o Gymru yn eiddgar ynghylch y datblygiadau diweddaraf yma.



Yr agenda presennol ...

...adnabod ardaloedd
lle gellid sefydlu
Partneriaeth
Eciwmenaid Leol;

...trafod â
chynulleidfaoedd o
fewn yr ardaloedd
hynny er mwyn
esbonio amodau'r
Cyfamod ac annog
sefydlu Partneriaeth
Eciwmenaid Leol;

...ystyried a oes
cymunedau penodol
lle gellid sefydlu
patrymau arbrofol ar
gyfer gweinidogaeth
eciwmenaid.

Cenhadu a gwasanaethu mewn Partneriaethau Lleol

Mae cyfamodi'n grymuso cenhadu'n lleol. Mae'n golygu sefydlu partneriaethau rhynggenwadol ar lawr gwlad gyda'r cytundebau a'r gefnogaeth briodol gan sicrhau canlyniadau ymarferol mewn sefyllfaoedd lleol mewn ardaloedd trefol ac yng nghefn gwlad.

Mae pob un o'r pum Eglwys Gyfamodol (a deddf gwlad) bellach yn cynnig ffyrdd i eglwysi lleol rannu adnoddau, ffurfwasanaethau a'r sacramentau.

Mae eisoes nifer o Bartneriaethau Eciwmenaid Lleol a Gweinidogaethau Bro wedi'u sefydlu yng Nghymru. Yr her dros y pum mlynedd nesaf fydd ychwanegu at eu nifer*.

Un cwestiwn sy'n codi yw sut y cydnabyddir ac y derbynnir gweinidogion un o'r traddodiadau gan y rhai sy'n perthyn i draddodiadau eraill.

Ateb yr Eglwys Fethodistaidd yw bod y gweinidogion hynny'n cael eu 'hawdurdodi i wasanaethu' gan y Gynhadledd; yn yr Eglwys yng Nghymru defnyddir y *Canonau Eciwmenaid*; bydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru'n defnyddio awdurdod y Gymanfa Gyffredinol drwy'r Gymdeithasfa a'r Henaduriaethau; yn yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig bydd y Synod yn awdurdodi gweinidogion mewn partneriaeth â'r eglwys leol; a bydd yr eglwysi Bedyddiedig yn dilyn argymhellion yr Undeb ynghylch Ffydd a Threfn.

**Mae ardaloedd yng Nghymru, yng
nghefn gwlad gan fwyaf ond rhai
ohonynt yn ardaloedd trefol, lle gallai
ad-drefnu'r offeiriaid a gweinidogion
sydd yno eisoes i ffurfio tîm
eciwmennaidd drawsnewid bywyd a
gwaith yr eglwys.**

*'Po fwyaf y bydd yr eglwysi'n adlewyrchu o
ddifrif y gymuned gariadlon sydd wrth galon y
bydysawd – y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân –
po fwyaf y bydd pobl am barhau i berthyn.'*

*Philip Richter a Leslie J. Francis
(‘Gone but not forgotten’ DLT 1998)*

*Ceir rhestr o'r eglwysi a'r enwadau sy'n cyfranogi yn:
<http://www.cytun.org.uk/eglwysicyfamodol.html>

Arwyddo Cyfamod - PEL Bae Caerdydd



*Yr agenda
presennol ...*

**...adolygu
gwasanaethau'r
Cymun**

*'Oherwydd bob tro
y byddwch yn
bwyta'r bara hwn
ac yn yfed y cwpan
hwn, yr ydych yn
cyhoeddi
marwolaeth yr
Arglwydd, hyd nes
y daw.'*

1 Corinthiaid 11. 26

Trefn gyffredin ar gyfer y Cymun Bendigaid

Ym 1981 cyhoeddodd yr Eglwysi Cyfamodol Y *Cymun Sanctaidd* gan gymryd y cam hynod bwysig o ddarparu ffurfwasanaeth Ewcharistaidd yr oedd yr holl Eglwysi Cyfamodol wedi cytuno arno i'w ddefnyddio mewn partneriaethau eciwmenaidd ac ar achlysuron rhyngeglwysig priodol eraill.

Ers hynny, mae rhai o ffurfwasanaethau'r Eglwysi Cyfamodol unigol hefyd wedi eu cydnabod i'w defnyddio yn yr un modd.

Serch hynny, erys dyhead cryf am gytuno ar ffurfwasanaeth cyfamodol sy'n seiliedig ar y syniadau diweddaraf ynghylch y litwrgi.

Yn y Cydgynulliad ym mis Hydref 2012 fe ddefnyddir Gwasanaeth Cymun Cyfamodol newydd am y tro cyntaf.



Yr agenda presennol ...

...llunio, yn dilyn myfyrion Beiblaidd a diwinyddol, ddogfen y bydd pob un o'r pum Eglwys Gyfamodol yn cytuno arni ar y cyd ac sy'n crynhoi sut y maent yn deall mater arolygiaeth fugeiliol ac yn datgan yn eglur pa batrwm a fyddai'n dderbyniol i bob un ohonynt.

Rhannu Arolygiaeth

Er mwyn sicrhau ein bod yn trefnu'r weinidogaeth yn y modd gorau i wasanaethu partneriaethau lleol mae angen rhagor o waith ar fater arolygiaeth.

Ym 1986, ar sail y drafodaeth ym mhapur Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi'r Byd '*Baptism, Eucharist & Ministry*' (1982) ac ymatebion eglwysi Cymru yn '*Egwyddorion Undeb Gweledig yng Nghymru*' (1980), lluniodd yr Eglwys Gyfamodol yng Nghymru 'bapur gwyrdd' ysbrydoledig ynghylch pa ffurf y gallai '*Gweinidogaeth mewn Eglwys yn Uno*' ei gymryd yng nghyd-destun Cymru. Byddai'n golygu symud 'o gydnabod i gymodi'.

Er na fu i'r un o'r Eglwys Gyfamodol wrthod y cynllun, bu'n un o siomedigaethau cynnar hanes cyfamodi yng Nghymru na fu cytundeb digonol i droi'r 'papur gwyrdd' hwnnw'n 'fesur' penodol y gellid ei gyflwyno i bob un o'r Eglwys. Fodd bynnag, bu iddo effaith hirdymor gan iddo amlygu mater arolygiaeth fel agwedd allweddol yn yr ymdrech i bontio rhwng gwahaniaethau enwadol er lles ein cenhadaeth.

Ddeuddeng mlynedd yn ddiweddarach, ailedrychodd yr Eglwys Cyfamodol yng Nghymru ar yr her o rannu arolygiaeth weinidogaethol gyda'u cynnig llai uchelgeisiol ym 1998: '*Tuag at Benodi Esgob Eciwmenaidd yng Nghymru*'. Y tro hwn, byddai'r esgob yn gweinidogaethu o fewn Partneriaeth Eciwmenaidd Leol yn Nwyrain Caerdydd. Ond unwaith eto ni fu cytundeb digonol i allu disgwyl pleidlais o blaid y syniad ym mhob un o'r pum traddodiad.

Mewn ymdrech arall i greu patrwm o arolygiaeth a fyddai'n dderbyniol i bawb ac sy'n 'bersonol, cynghoraidd a chymunol', mae'r Eglwys Cyfamodol yng Nghymru yn gweithio ar batrwm newydd a chyflwynir y casgliadau yn y Cydgynulliad ym mis Hydref 2012.



Yr agenda

presennol ...

... ystyried dull o lywodraethu eglwysig ar y cyd gan ganolbwyntio'n arbennig ar yr elfennau sy'n debyg rhwng y trefniadau enwadol presennol;

... llunio dogfen y bydd pob un o'r pum enwad sy'n perthyn i'r Cyfamod yn cytuno arni ac a fydd yn datgan yn eglur pa ffurf ar lywodraethu eglwysig a fyddai'n dderbyniol i bawb.

Yr Eglwys yn Uno yng Nghymru

Yn yr hir dymor byddai angen sefydlu un corff llywodraethu ar gyfer Eglwys yn Uno. Mae'r Cydgynulliad ym mis Hydref 2012 ei hun yn cynnig un patrwm posibl a allai esblygu i ddod yn Gydgynulliad yr Eglwys yn Uno, gan gyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Allwch chi ddychmygu pa ffurf a gymerai'r Eglwys honno?

Byddai symud oddi wrth y trefniadau llywodraethu amrywiol sydd gennym ar hyn o bryd yn golygu newid agwedd sylfaenol, gan gychwyn drwy synio amdanom ein hunain fel "Eglwys yn Uno yng Nghymru", Eglwys sy'n ymgorffori ein holl eglwysi ac enwadau hanesyddol ac sy'n gwarchod ac yn dathlu eu traddodiadau unigryw. Byddem felly'n adeiladu ar bopeth a wnaethom yn y gorffennol ac yn camu i'r dyfodol yn hyderus.

'Yn union fel y mae gennym aelodau lawer mewn un corff, ond nad oes gan yr holl aelodau yr un gwaith, felly hefyd yr ydym ni, sy'n llawer, yn un corff yng Nghrist, ac yn aelodau bob un i'w gilydd.'



Yr agenda

presennol ...

... darparu gwasanaeth confyrmasiwn ar y cyd i'w ddefnyddio o fewn Partneriaethau Eciwmenaid Lleol;

... ystyried darparu gwasanaethau ordeinio ar y cyd pan fo hynny'n bosibl.

Beth nesaf?

Ym 1990 ac ym 1994 cyhoeddodd yr Eglwysi Cyfamodol ddwy gyfrol ynghylch '*Bedydd Cristnogol ac Aelodaeth Eglwysig*', gan gynnwys '*Gwasanaeth Bedydd*' ynghyd â '*Gwasanaeth Cadarnhau ac Ailgadarnhau Ffydd*' enghreifftiol. Yr hyn sydd ei angen yn awr yw ffurfwasanaeth sy'n adeiladu ar y gwaith cynharach hwnnw ond sydd wedi'i addasu ar gyfer disgwyliadau a syniadau heddiw.

Mae cenhedlaeth newydd o ddisgyblion am weld cytuno ar ffurfwasanaeth a fydd yn eu galluogi i ddathlu'r ffaith eu bod yn perthyn gyda'i gilydd i'r holl draddodiadau sy'n ffurfio'r teulu cyfamodol mewn gwasanaethau confyrmasiwn ar y cyd.

Yn y cyfamser mae pob eglwys / enwad wedi cytuno ar drefn ar gyfer sefydlu Partneriaethau Eciwmenaid Lleol a Gweinidogaethau Bro.*

Y tymor hir

Gwireddu undod gweladwy a sefydlu undod organig drwy greu:

- Eglwys yn Uno yng Nghymru sy'n rhannu un ffydd, un strwythur, un weinidogaeth ac un drefn lywodraethu
ond
- sy'n anrhydeddu ac yn dathlu'r gwahanol safbwyntiau diwinyddol a thraddodiadau addoli sy'n ffurfio'r cyfanwydd ehangach ac yn ei gyfoethogi.

Arglwydd, cynorthwya ni i newid.
I newid ein hunain ac i newid ein byd.
I adnabod yr angen am newid.
I ddygymod â phoen y newid
a phrofi ei lawenydd.
Gan ddechrau'r daith heb wybod beth fydd ei therfyn. Dawn y chwyldro tyner

Leuing, Awstralia



**'Wrth gyfamodi,
bydd pob eglwys
yn cadw, *am y tro*
a chyhyd ag y
penderfyna bob
eglwys felly, ei
strwythurau
eglwysig,
ei thraddodiadau,
ei dulliau addoli a'i
threfniadau ar gyfer
lleoli gweinidogion.'**

Paul A Crow,
o draddodiad
Disgyblion Crist,
cyn Athro Cyswllt
Hanes yr Eglwys,
Lexington, Kentucky,
ac un o'r prif
arbenigwyr ar
gyfamodi.

Am y tro ... *

'Fodd bynnag, gall y cymal bach yna "am y tro" mor hawdd lithro i olygu "am gyhyd ag y gall unrhyw un ragweld". Gall dyfu'n ddyweddïad nad yw byth yn arwain at briodas, gyda'r berthynas yn oeri neu hyd yn oed yn suro, a dod yn barlys nad yw'n rhyddhau nac yn cyflawni dim. Oherwydd, onid oes raid i hyd yn oed "fynegiant wedi'i addasu o undod organig" esgor ar rai canlyniadau diriaethol, po fwyaf fyth y bo'r addasu, os yw i fod yn rhywbeth amgen na phatrwm "eglwysi ynghyd"?

'Teulu mawr a llac ei wead yw Cytûn: chwiorydd, brodyr, modrybedd, ewythrod a chefnidryd cyntaf ac ail gefnidryd o amryw genedlaethau! Gyda chysylltiadau cyffredin a hanesion ar y cyd yn eu clymu: yn cydnabod llinach gyffredin a'r un gwneuthuriad genetig.

**'Mae'r pum aelod cyfamodol o'r teulu mawr,
gwasgaredig hwn, fodd bynnag, am fynd ymhellach -
am gydfyw fel teulu sy'n rhannu'r un ffydd, am greu
perthynas newydd a dyfnach ac am ildio peth o'u
hannibyniaeth er mwyn profi ffordd gyfoethocach o
fyw a bod.**

'Gall cyfamodi ar y dechrau fod yn wir yn fynegiant wedi'i addasu o undod organig, eto, gan ddyfynnu'r Athro Crow, "mewn gweithred ddwys mae'r eglwysi'n gofyn i Dduw drwy'r Ysbryd Glân greu o'u bywydau gwahanedig gymuned eglwysig newydd sydd wedi ymrwymo i gyflawni un genhadaeth yn y byd."

*O bapur a gyflwynodd y Parchedig Gethin Abraham-Williams, Cadeirydd presennol Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru, mewn cyfarfod o Arweinwyr yr Eglwysi Cyfamodol ar 9 Rhagfyr 2009.

(Ceir y testun llawn yn:
<http://www.cytun.org.uk/eglwysicyfamodol.html>)

'Felly, tra bydd amser gennym, gadewch inni wneud da i bawb, ac yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd.'
Galatiaid 6.10



Tyfodd yr holl broses o Gyfamodi allan o astudio diwinyddol dwys ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau hyd heddiw. Gwelwyd ffrwythau hynny'n litwrgiaidd ar sawl pwynt allweddol yn hanes y Cyfamod.

Dyma restr o'r prif gyhoeddiadau ynghylch Cyfamodi (mae rhai ohonynt bellach allan o brint ond ar gael i'w hastudio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth)

Y seiliau Ysgrythurol ac egwyddorion diwinyddol

- 1968** Cyfamodi yng Nghymru.
- 1971** Cyfamodi ar gyfer Undeb yng Nghymru Rhan I.
Cyfamodi ar gyfer Undeb yng Nghymru Rhan II.
- 1980** Egwyddorion Undeb Gweledig yng Nghymru.
- 1981** Y Cymun Sanctaidd; Trefn Gwasanaeth.
- 1986** Gweinidogaeth mewn Eglwys yn Uno;
O Gydnabod i Gymodi.
- 1987** Sefydlu Eglwys yn Uno yng Nghymru;
Drafft o wasanaethau.
- 1990** Bedydd Cristnogol ac Aelodaeth Eglwysig Cyfrol I.
Gwasanaeth Bedydd
- 1993** Y Cymun Sanctaidd Atodiad
- 1994** Bedydd Cristnogol ac Aelodaeth Eglwysig Cyfrol II.
Gwasanaeth Cadarnhau ac Ailgadarnhau Ffydd.
- 1998** Tuag at Benodi Esgob Eciwmenaidd yng Nghymru.



Y Beibl
Cymraeg
Newydd

Yn Cynwys
Yr Apocryff

Cymdeithas
Y Beibl

Am ragor o wybodaeth neu am gopi print bras o'r llyfryn yma cysylltwch â:

Comisiwn yr Eglwysy Cyfamodol yng Nghymru:

Cytûn

58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3UR

029 2046 4204

<http://www.cytun.org.uk/eglwysicyfamodol.html>



Yr Eglwys yng Nghymru

39 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9XF

029 2034 8252

www.eglwysyngnghymru.org.uk

Yr Eglwysy Bedyddiedig Cyfamodol

o fewn Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr

d/o 54 Heol Richmond

Caerdydd CF24 3UR

www.swbabugb.org.uk

Synod Cymru yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig

Heol Minster, Y Rhath

Caerdydd CF23 5AS

029 2019 5728

www.urc-wales.org.uk

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Capel Tabernacle

81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd

Caerdydd CF14 1DD

029 2062 7465

www.ebcpcw.org.uk

Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru

Synod Cymru

3 Nant y Gader

Dolgellau LL40 1LB

01341 422524

www.synodcymru.org



Cwestiynau...

Beth mae hyn oll yn ei olygu i mi ac i'm plwyf / cynulleidfa?

Beth yw'r oblygiadau ar gyfer ein cenhadaeth?

Sut allai hyn effeithio ar y modd y mae ein Heglwys yn gweithio?

...beth fyddai eich cwestiynau chi?

